



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board



## **Safon 110 yr Iaith Gymraeg**

**“Cynyddu’r cynnig i gyflenwi  
ymgyngghoriadau clinigol cyfrwng  
Cymraeg”**

**Cynllun Gweithredu 2019 – 2024**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

---

## Cynnwys

|                                                                                                                   |                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|
| <b>1. Crynodeb gweithredol.....</b>                                                                               | <b>3</b>                            |
| <b>ADRAN 1: ADRODDIAD BLYNYDDOL .....</b>                                                                         | <b>4</b>                            |
| <b>2. Cyflwyniad a chefnidir.....</b>                                                                             | <b>4</b>                            |
| <b>3. Ein dull o sicrhau cynnydd yn y cynnig i gyflenwi ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg.....</b>          | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| <b>4. Deilliant 1 .....</b>                                                                                       | <b>6</b>                            |
| <b>5. Deilliant 2 .....</b>                                                                                       | <b>6</b>                            |
| <b>6. Deilliant 3 .....</b>                                                                                       | <b>6</b>                            |
| <b>7. Deilliant 4 .....</b>                                                                                       | <b>6</b>                            |
| <b>ADRAN 2 – CYNLLUN GWEITHREDU A BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019 - 2024 .....</b>                                   | <b>7</b>                            |
| <b>8. Datblygu Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer Safon 110 (2019 – 2024) .....</b> | <b>7</b>                            |
| <b>9. Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf .....</b>                                                          | <b>7</b>                            |
| <b>10. Mesurau a rheolaeth perfformiad .....</b>                                                                  | <b>8</b>                            |
| <b>ADRAN 3 – MESURAU DEILLIANT.....</b>                                                                           | <b>9</b>                            |

## 1. Crynodeb gweithredol

Yn unol ag Adran 44 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, yn benodol Safon 110, disgwylir i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi cynllun ar gyfer bob cyfnod 5 mlynedd gan amlinellu -

- (a) I ba raddau rydych chi'n gallu cynnig cyflenwi ymgynghoriad clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- (b) Amserlen ar gyfer y camau a amlinellwyd yn (b).

Mae'n amlwg o adroddiad blynyddol Iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2019 i Swyddfa'r Comisiynydd bod sefydlu gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg staff presennol wedi bod yn heriol. Mae hyn wedi gwneud ein hasesiad o fedr y sefydliad i gynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn anodd. Mae data Cofnod Electronig y Staff (ERS) yn nodi mai 32.87% yn unig o'r staff sydd wedi cwblhau eu hasesiad personol o fedr yn yr iaith Gymraeg. Felly, mae sicrhau cwblhad cynyddol i fedrau iaith Gymraeg ERS yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd er mwyn datblygu metrigau i fonitro cynnydd ac i sicrhau gwaelodlin gywir i sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu. Mae Uned Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth y staff o bwysigrwydd cwblhau eu medrau iaith Gymraeg drwy ymgysylltu a chyfathrebu parhaus â'r staff.

Hefyd, mae'r Uned Iaith Gymraeg wedi parhau i gefnogi staff drwy ddatblygu ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg a phwysigrwydd y 'Cynnig Gweithredol' sy'n sicrhau bod cleifion yn cael cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg heb orfod gofyn amdano. Mae hyn yn rhan bwysig o fewnosod ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau o fewn y sefydliad. Mae datblygu hyder staff wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg gyda darpariaeth barhaus o sesiynau Ymwybyddiaeth yr Iaith Gymraeg a sesiynau hyfforddi 'Croeso a chyfarch' yn cael eu blaenoriaethu. Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Mentrau Iaith lleol a Choleg Gwent, mae gwaith ar y gweill i gynnig mwy o gyrsiau Iaith Gymraeg a sesiynau ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynllun arloesol 'Proffil Iaith Personol' yn 2020. Mae Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg yn cael ei gynnig ym mhob sesiwn Sefydlu Corfforaethol i sicrhau bod staff Newydd yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd y 'Cynnig Gweithredol' a gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mae delio ag angen y boblogaeth yn brif ffactor wrth lunio'r cynllun 5-mlynedd a ddisgwylir gan Safonau'r Iaith Gymraeg i ddangos cynnydd yn ein gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, bydd 3 blynedd gyntaf y cynllun hwn yn canolbwyntio ar gynyddu'r cynnig ym mwrdeistref Caerffili sydd â'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwent. Bydd gwerthuso camau'r 3 blynedd gyntaf yng Nghaerffili'n hysbysu arfer gorau i'w dreiglo ar draws y bwrdeistrefi eraill yng Ngwent yn y blynyddoedd dilynol.

---

Canolbwyntir yn arbennig hefyd ar gynyddu'r cynnig o ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer 'grwpiau bregus' a nodir yn y Strategaeth 'Mwy Na Dim Ond Geiriau'. Y grwpiau hyn yw:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl ag anableddau dysgu
- Pobl â phroblemau iechyd meddwl
- Pobl hŷn

## **ADRAN 1: ADRODDIAD BLYNYDDOL**

### **2. Cyflwyniad a chefndir**

Cymeradwy-wyd Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 gan Senedd Cymru a chafodd gydsyniad brenhinol ar 09 Chwefror 2011.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru ac mae'n atgyfnerthu'r egwyddor na ddylid trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg yng Nghymru.

Hefyd, mae'r Mesur:

- Yn llunio'r weithdrefn ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau ar ffurf Safonau Iaith Gymraeg ("y Safonau").
- Wedi sefydlu rôl Comisiynydd yr Iaith Gymraeg ("y Comisiynydd") i graffu ar gydymffurfiant.
- Wedi rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i unrhyw gyhuddiadau o amharu ar ryddid unigolyn i ddefnyddio'r iaith.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon yn unol â'r gofynion a osodwyd ar y Bwrdd Iechyd o fewn Safonau Iaith Gymraeg, Adran 26 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Adran 26 o Fesur 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi Safonau ac mae Adran 39 yn eu galluogi i sicrhau bod Safon yn gymwys yn benodol i berson drwy roi awdurdod i'r Comisiynydd gyhoeddi rhybudd o gydymffurfiant rheoli.

Gosodwyd rhybudd o gydymffurfiant rheoli ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 30 Tachwedd 2018, ar ffurf Safonau.

Mae Safon 110 yn disgwyl bod y Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi cynllun iaith Gymraeg 5-mllynedd corfforaethol gan amlinellu i ba raddau y mae'n gallu cynnig cyflenwi ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gynyddu ei allu i gynnig cyflenwi ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg.

---

### 3. Ein hymagwedd tuag at sicrhau cynnydd yn y cynnig i gyflenwi ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yw y bydd ein medr i gynnig ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg i'n defnyddwyr yng Ngwent erbyn 2024 yn gymharol gydag anghenion ieithyddol y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Ein blaenoriaethau ar gyfer cynyddu'r cynnig o gyflenwi ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg am y 12 mis cyntaf yw:

- Datblygu'r cynllun iaith Gymraeg corfforaethol 5-mllynedd hwn gan amlinellu i ba raddau rydym yn gallu cynnig cyflenwi ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg a'r camau y bwriadwn eu cymryd i gynyddu ein gallu i gynnig cyflenwi ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion ieithyddol y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.
- Parhau i adolygu adnoddau'r Uned Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau cefnogaeth effeithlon i'r gweithlu.
- Canfod nifer y staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan y Bwrdd Iechyd, sy'n siarad Cymraeg ac sy'n hyderus i gynnig ymgynghoriad clinigol cyfrwng Cymraeg.

Byddwn ni'n edrych ar ein cynnydd yn erbyn y mesurau canlynol:

- Trefniadau rheoleiddio sy'n eu lle i gefnogi monitro gweithredu'r Safonau Iaith Gymraeg.
- Cynyddu'r nifer o staff sy'n cwblhau eu Medrau Iaith Gymraeg drwy ESR.
- Gwella'r adnoddau a'r hyfforddiant iaith Gymraeg sydd ar gael i'w cynnig i staff.
- Gwneud y gorau o'r sgiliau Iaith Gymraeg o fewn y gweithlu.
- Cynyddu ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg, ei diwylliant a'r effaith positif y mae hyn yn ei gael ar brofiad cleifion.

Nod y ddogfen hon yw cynnig gwaelodlin lle mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n blaenoriaethau a disgrifio'r deilliannau y gellir monitro cynnydd yn eu herbyn.

---

#### 4. Deilliant 1

##### **Sefydlu gwaelodlin glir o sgiliau iaith Gymraeg staff**

Bydd cynnydd yn erbyn y deilliant hwn yn cael ei fesur gan y dangosyddion canlynol:

- **Mesur 1:** Cyfradd cydymffurfio ar gyfer cwblhau Medrau Iaith Gymraeg unigol ar ESR.
- **Mesur 2:** Nifer sydd wedi derbyn cynnig i gael hyfforddiant Iaith Gymraeg.

#### 5. Deilliant 2

**Bydd camau gan Is-adrannau a staff yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau ‘Cynnig Gweithredol’ o Gymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei ganfod a’i barchu**

Bydd cynnig yn erbyn y deilliant hwn yn cael ei fesur gan y dangosyddion canlynol:

- **Mesur 3:** Is-adrannau’n arddangos nifer o bosteri’n cynnig cynigion gweithredol.
- **Mesur 4:** Nifer y staff sy’n dilyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg.
- **Mesur 5:** Cyfradd atgyfeirio at y gwasanaeth cyfieithu.

#### 6. Deilliant 3

**Bydd gweithredu gan isadrannau a staff y Bwrdd Iechyd yn golygu bod mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau’n cael cynnig ymgynghoriad clinigol cyfrwng Cymraeg**

Bydd cynnydd yn erbyn y deilliant hwn yn cael ei fesur gan y dangosyddion canlynol:

- **Mesur 6:** Nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau’n gofyn am ymgynghoriadau cyfrwng Cymraeg.
- **Mesur 7:** Adborth cleifion a gofalwyr.

#### 7. Deilliant 4

**Buddsoddiad mewn adnoddau ychwanegol i gynyddu’r cynnig o ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg**

---

Bydd cynnydd yn erbyn y deiliant hwn yn cael ei fesur gan y dangosyddion canlynol:

- **Mesur 8:** Nifer o gyfieithwyr wedi'u hychwanegu at y system.
- **Mesur 2:** Nifer cynyddol yn derbyn cynnig o hyfforddiant Iaith Gymraeg.
- **Mesur 4:** Nifer o staff yn dilyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg.
- **Mesur 5:** Cyfradd atgyfeiriadau at y gwasanaeth cyfieithu.

## **ADRAN 2 – CYNLLUN GWEITHREDU A BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019 - 2024**

Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd lunio a chyhoeddi cynllun i ganfod, monitro a gwerthuso'r camau sydd eu hangen o fewn amserlenni. Arweinydd Gweithredol y Bwrdd Iechyd yw'r rôl sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg. Adroddir am y cynnydd yn ffurfiol i'r Bwrdd drwy drefniadau rheolaeth sefydledig sy'n cynnwys Grŵp Iaith Gymraeg Strategol, y Tîm Gweithredu a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Bydd yr adroddiad cynnydd i'r Bwrdd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn ôl y gofyn ar ôl cyfnod o 3 a 5 mlynedd.

Wedi adolygu ein cynnydd yn erbyn ein hadroddiad blynyddol i Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a luniwyd yn 2019, rydym wedi diweddarau ein cynllun gweithredu i sicrhau y bydd yn ein galluogi i ymateb yn well i'r heriau a nodwyd gan ein hadolygiad. Bydd hyn yn sicrhau bod y sefydliad mewn sefyllfa i gyflawni gofynion Safon 110.

### **8. Datblygu Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer Safon 110 (2019 – 2024)**

Yn dilyn ein hasesiad o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau, rydym wedi adolygu sut bydd ein darpariaeth o'r gwasanaeth efallai'n gorfod newid. Rydym wedi datblygu camau i'w cymryd yn ystod cyfnod y cynllun hwn ac yn benodol camau a deilliannau yr hoffem eu gweld yn digwydd dros y cyfnod o 5 mlynedd nesaf. O gofio ein cyfradd isel o gydymffurfio gyda medrau iaith Gymraeg ESR, profwyd hi'n anodd asesu'n llawn ein gallu presennol i ddarparu ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg heb y defnydd o wasanaethau cyfieithu. Felly, bu'n rhaid cynnwys y casgliad data ar ESR fel gwaelodlin i fesur er mwyn monitro cynnydd fel deiliant i gamau cynnar y cynllun hwn.

### **9. Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf**

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ceisio gwella deilliannau rhwng heddiw a 2024. Rydym hefyd wedi nodi o fewn y cynllun flaenoriaethau ar gyfer 2019 - 2024 sy'n adlewyrchu ein heriau lleol. Y rhain yw cynyddu:

- Y nifer o staff sy'n cwblhau medrau iaith Gymraeg ESR.
-

- Y nifer sy'n dilyn e-ddysgu Cymraeg.
- Y nifer sy'n derbyn cynnig o hyfforddiant iaith Gymraeg.
- Y nifer o sesiynau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg gyda ffocws arbennig ar y 'grwpiau bregus' a nodwyd yn y Strategaeth 'Mwy na Geiriau'n Unig'.

Bydd ffocws 3 blynedd gyntaf y cynllun hwn ar wasanaethau sy'n cael eu darparu o fewn bwrdeistref Caerffili gyda ffocws arbennig ar wasanaethau sy'n cefnogi'r grwpiau bregus a nodwyd yn y 'Strategaeth Mwy na Geiriau'n Unig'. Bydd yr Adolygiad o'r Strategaeth a gyhoeddir ym mlwyddyn 3 yn adeiladu ar arfer gorau ac yn hysbysu camau a nodir i weithredu ar draws y bwrdeistrefi eraill i fewnosod y strategaeth hon ar draws y Bwrdd Iechyd.

## **10. Mesurau a rheolaeth perfformiad**

Mae Grŵp Strategol yr Iaith Gymraeg wedi cytuno ar y mesurau deilliant a nodwyd yn Adran 3 gyda mesurau perfformiad fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd.

## ADRAN 3 – MESURAU DEILLIANT

| Blwyddyn 1 - 2020                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Blwyddyn 2 - 2021                                                                                                                                                         | Blwyddyn 3 - 2022                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Blwyddyn 4 - 2023                                                                                                                                                     | Blwyddyn 5 - 2024                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Deiliant 1: Sefydlu gwaelodlin glir i sgiliau iaith Gymraeg staff                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu cyfathrebu gyda staff am fedrau'r iaith Gymraeg;</li> <li>Creu mecanwaith adrodd yn ôl i adborth a chymharu cydymffurfiant is-adrannau/adrannau</li> <li>Cydymffurfiant adborth drwy drefniadau rheolaeth Iaith Gymraeg ac isadrannau/ adrannau.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthuso Blwyddyn 1 – Cymharu cynnydd is-adrannau/ adrannau, dathlu a chyfathrebu llwyddiant.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad o'r strategaeth i werthuso'r 3 blynedd gyntaf - gwerthuso i hysbysu camau gweithredu i'w treiglo ar draws siroedd eraill ym mlwyddyn 4;</li> <li>Cyhoeddi adroddiad am gynnydd;</li> <li>Sicrhau bod data a gyhoeddwyd wedi'i ddadansoddi ar lefel leol ac ystyried a gweithredu unrhyw welliannau posibl i'r gwasanaeth pan fydd angen.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro deiliant camau gweithredu blynedd 1-3 ac ystyried potensial o fewn siroedd eraill.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Creu proffil o sgiliau iaith Gymraeg staff a chymharu gydag anghenion ieithyddol y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethau i ganfod potensial;</li> <li>Cyhoeddi adolygiad o'r strategaeth i werthuso'r cynllun 5-mlynedd- mesurau i gynnal y camau gweithredol a gyflawnwyd dros y cyfnod o 5 mlynedd flaenorol a chamau ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd nesaf;</li> <li>Sicrhau bod y data a gyhoeddwyd wedi'i ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau posibl i'r gwasanaethau'n cael eu hystyried a'u gweithredu pan fydd angen.</li> </ul> |

| Blwyddyn 1 - 2020                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Blwyddyn 2 - 2021                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Blwyddyn 3 - 2022                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Blwyddyn 4 - 2023                                                                                                                                                                                                                                                                | Blwyddyn 5 - 2024                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Deilliant 2: Bydd gweithredu gan isadrannau a staff y Bwrdd Iechyd yn golygu bod y sefydliad yn darparu 'Cynnig Gweithredol' Cymraeg yn rheolaidd i ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei chanfod a'i pharchu.</b>                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu gwelededd yr iaith Gymraeg mewn mannau clinigol – dosbarthu posteri cynnig gweithredol ar draws pob adran glinigol;</li> <li>Archwiliadau ciplun o adrannau clinigol a dargedwyd i fonitro cydymffurfio;</li> <li>Creu a rhaeadru cit offer cynnig gweithredol;</li> <li>Darparu sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar gyfer adrannau/ is-adrannau a dargedir;</li> <li>Cynyddu'r nifer o staff sydd wedi'u targedu ar gyfer e-ddysgu iaith Gymraeg.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthuso archwiliadau ciplun a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn 1 - gosod targedau i wella cydymffurfiant;</li> <li>Gwerthuso ac adolygu'r cit offer;</li> <li>Gwerthuso'r nifer sy'n dilyn y sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar gyfer rhai adrannau/ is-adrannau wedi'u targedu;</li> <li>Gwerthuso'r nifer sy'n e-ddysgu iaith Gymraeg ym Mlwyddyn 1.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu'r strategaeth i werthuso'r 3 blynedd gyntaf - gwerthusiad i hysbysu camau i'w treiglo ar draws siroedd eraill ym mlwyddyn 4;</li> <li>Cyhoeddi adroddiad am gynnydd;</li> <li>Sicrhau bod data a gyhoeddwyd wedi'i ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau posibl i'r gwasanaethau'n cael eu hystyried a'u gweithredu lle bydd angen</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu mecanwaith ffurfiol ar gyfer cydnabod cyfraniad arbennig i gyflenwi'r agenda Iaith Gymraeg;</li> <li>Monitro deilliant camau ym mlynnyddoedd 1-3 ac ystyried potensial o fewn siroedd eraill.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi adolygiad y strategaeth i werthuso'r cynllun 5-mllynedd - mesurau i gynnal y camau a gyflawnwyd dros y cyfnod diwethaf o 5 mlynedd a chamau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf;</li> <li>Sicrhau bod y data a gyhoeddwyd wedi'i ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau posibl i wasanaethau'n cael eu hystyried a'u gweithredu pan fydd angen.</li> <li>Papur i'r Tîm Gweithredu i sefydlu sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar bob rhaglen berthnasol.</li> </ul> |

| Blwyddyn 1 - 2020                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Blwyddyn 2 - 2021                                                                                                                                   | Blwyddyn 3 - 2022                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Blwyddyn 4 - 2023                                                                                                                                                                                                                  | Blwyddyn 5 - 2024                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Deilliant 3: Bydd gweithredu gan is-adrannau a staff y Bwrdd Iechyd yn golygu y bydd mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau'n cael cynnig ymgynghoriad clinigol cyfrwng Cymraeg</b>                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu Fforwm Iaith Gymraeg i Gleifion yn yr ardal a dargedwyd i ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaethau;</li> <li>Ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaethau i glywed profiad cleifion;</li> <li>Monitro nifer y defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith sy'n gofyn am ymgynghoriad clinigol cyfrwng Cymraeg.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgyrch Cyfathrebu i rannu profiadau cleifion gyda staff y Bwrdd Iechyd.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu'r strategaeth i werthuso'r 3 blynedd gyntaf - gwerthusiad i hysbysu camau i'w treiglo ar draws siroedd eraill ym mlwyddyn 4;</li> <li>Cyhoeddi adroddiad am gynnydd;</li> <li>Sicrhau bod y data a gyhoeddwyd wedi'i ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau posibl i'r gwasanaeth yn cael eu hystyried a'u gweithredu pan fydd angen.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro deilliant camau ym mlynnyddoedd 1-3 ac ystyried potensial o fewn siroedd eraill;</li> <li>Sefydlu Ffora Cleifion Iaith Gymraeg ar draws pob sir</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi adolygiad o'r strategaeth i werthuso'r cynllun 5 mlynedd - mesurau i gynnal y camau a gyflawnwyd dros y cyfnod o 5 mlynedd ddiwethaf a chamau ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd nesaf;</li> <li>Sicrhau bod y data a gyhoeddwyd wedi'i ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau posibl i'r gwasanaeth yn cael eu hystyried a'u gweithredu pan fydd angen</li> </ul> |

| Blwyddyn 1 - 2020                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Blwyddyn 2 - 2021                                                                                                                                                                                                                    | Blwyddyn 3 - 2022                                                                                                                                                                                                      | Blwyddyn 4 - 2023                                                                                                                                                                                                       | Blwyddyn 5 - 2024                                                                                                                                                                                                      |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Deiliant 4: Buddsoddiad mewn adnoddau ychwanegol i gynyddu'r cynnig o ymgynghoriad clinigol cyfrwng Cymraeg</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                        |
| <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Caffael trydydd partïon i gyflwyno cyrsiau iaith Gymraeg ychwanegol-sesiynau ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg (e.e. Coleg Gwent, Menter Iaith, ayyb);</li> <li>Caffael gwasanaethau cyfieithu ychwanegol i sicrhau bod banc digonol o gyfieithwyr ar gael i ateb gofynion cynnydd yn y cynnig o ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y data o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol ac ystyried a delio ag unrhyw ddiffyg posibl mewn adnoddau pan fydd angen.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y data o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol ac ystyried a delio ag unrhyw ddiffyg posibl pan fydd angen.</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y data o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol ac ystyried a delio ag unrhyw ddiffyg posibl pan fydd angen..</li> </ul> | <p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y data o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol ac ystyried a delio ag unrhyw ddiffyg posibl pan fydd angen.</li> </ul> |